Credwn mewn byw cyn marw

© Cymorth Cristnogol 2008

Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851
Rhif cwmni 5171525

Wythnos Cymorth Cristnogol
11-17 Mai 08

‘Os down at ein gilydd, fe allwn wneud pethau rhyfeddol.’

Cymorth Cristnogol/Mohammadur Rahman

Gyda chymorth y pani parishad (pwyllgor dŵr newydd y pentref), mae Minu Basar (canol chwith) wedi dysgu sut i gynilo dŵr glaw yn ddiogel fel nad oes rhaid iddi hi deithio am ddiwrnod cyfan a chroesi afon beryglus er mwyn cael dŵr i’w yfed

Mae stori Rekha Biswas o Bangladesh yn enghraifft wych i’n hysbrydoli ar gyfer Wythnos Cymorth Cristnogol. Mae’r wraig ddewr hon yn mynd o dŷ i dŷ, i drafod problemau teuluoedd wrth gasglu dŵr. Ac yn bwysig iawn, y mae hi’n herio rolau’r rhywiau, trwy annog gwragedd i ddod i gyfarfodydd y pani parishad (pwyllgor dŵr) lleol.

Y mae dŵr glân yn broblem yn Bangladesh. Yn y gogledd ddwyrain, mae prinder dŵr a diffyg rhwydwaith mewnol yn creu anawsterau i nifer o’r cymunedau yno sydd heb dir. Yng nghorstiroedd isel y canol, mae’r tir o dan ddŵr am dros hanner y flwyddyn gyda ffynonellau dŵr tanddaearol yn aml wedi eu llygru gan arsenig. Yn y de-orllewin, mae codiad yn lefelau’r môr, yn rhannol o ganlyniad i newid hinsawdd, yn gwneud dŵr ffres yn hallt. Gall pobl gerdded hyd at 24 awr er mwyn cael dŵr i’w yfed.

Gwragedd a phlant sy’n dioddef gwaethaf. Gallant dreulio oriau yn cario llestri trymion o ddŵr i’r teulu. Gall prinder dŵr arwain at anghydfod teuluol, gyda’r wraig a’r plant yn dioddef o dymer fer gŵr neu dad ar ôl dydd o waith caled, ac weithiau cant eu cam-drin. Does gan y wraig ddim annibyniaeth economaidd am ei bod yn treulio cymaint o’i bywyd yn casglu dŵr. Yn aml mae hi’n gorfod gofalu am aelodau o’r teulu sy’n sâl oherwydd yfed dŵr brwnt. Ac mae’r plant yn colli allan ar addysg am fod cymaint o’u hamser yn mynd i nôl dŵr.

Mae Rekha wedi codi llais yn erbyn yr anghyfiawnder yma gan roi gobaith i’r pentref cyfan. Mae dŵr hallt wedi llygru’r rhan fwyaf o ffynonellau dŵr yfed y pentref, ond mae hi’n sicr fod ateb i’r broblem hon, ynghyd â’r broblem o ddiffyg hawliau dynol yn yr ardal lle mae hi’n byw. Cred Rekha mae’r ffordd orau i gael newid yw trwy roi llais i gymunedau, a gwragedd yn arbennig.

Mae partner Cymorth Cristnogol, BCAS (Canolfan Astudiaethau Pellach Bangladesh), wedi sefydlu sawl pani parishad mewn pentrefi ym mhob rhan o Bangladesh. Mae’r sefydliadau cymunedol yma yn trafod a phenderfynu ar yr ateb gorau ar gyfer cyflenwad dŵr i’w pentrefi hwy. Mae’r cynghorau dŵr hefyd yn darparu fforwm i drafod materion eraill sy’n effeithio’r gymuned. Nawr fod gan y pentref ddŵr glân, mae’r pani parishad yn gweithio i sefydlu ysgolion, yn ogystal ag edrych ar gynlluniau i adeiladu ffyrdd a gweithredu i rwystro priodasau plant. Y mae wedi rhoi i’r pentrefwyr y gallu i wella eu bywydau.

Hefyd mae’r pani parishad yn annog gwragedd i gymryd rôl fwy gweithredol. Rhaid i bob cyngor gael mwy na 50% o aelodau benywaidd ac mae’r llywydd yn gorfod bod yn wraig.

Eglura Rekha: ‘Yn y pani parishad yr ydym yn rhoi hyfforddiant i helpu (pobl) i ddeall beth sydd ei angen ac yna sut i’w gael, ac yn bwysicach, dônt i ddeall sut i wneud pethau drostynt eu hunain.’

Mae Rekha yn dweud wrth bobl os dônt at ei gilydd, gallant gyflawni pethau fyddai’n amhosibl iddynt eu gwneud ar eu pen eu hunain. Wrth neilltuo ychydig oriau yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol, yr ydych yn casglu llawer mwy nag arian. Gall eich rhoddion rhoi dŵr, hawliau a dewrder. Trwy ddod at ein gilydd, gallwn gyflawni pethau rhyfeddol.

Gall rhodd o £0.50 i Cymorth Cristnogol dalu am ddiwrnod o hyfforddiant rhywiau i un person gyda BCAS er mwyn helpu i wella perthynas o fewn y teulu a lleihau’r baich ar wragedd. Gallai £50 dalu cyflog mis cydlynydd cymunedol y pani parishad, sy’n cynorthwyo’r gwragedd a’r tlawd i ddarganfod eu llais, deall eu hawliau i gael dŵr, dysgu am iechyd a glanweithdra, ac ysgogi newid. Bydd eich rhoddion yn helpu rhoi llais i wraig unigol neu gymuned gyfan.

Gellir cael mwy o wybodaeth am Wythnos Cymorth Cristnogol, trwy ymweld â www.caweek.org.uk

cymorth cristnogol

© Cymorth Cristnogol Rhagfyr 2007
Rhif elusen gofrestredig y DG 1105851 Rhif cymni 5171525